

Cip ar Fwyta o'r Cartref

Mae marchnad bwyta o'r cartref Prydain yn werth £47bn, gyda £13.5bn yn cael ei wario ar ddiod - twf blynyddol cryf o dros 5%. Cyfartaledd gwariant y pen yw £968 y flwyddyn, £955 yng Nghymru. Daw'r twf o gynnydd mewn siopau, achlysuron newydd, teyrngarwch cynyddol a gwariant uwch o ddewis cynnyrch premiwm.

Mae'r farchnad 'o'r cartref' yn gyfran sylweddol o wariant defnyddwyr, gwerth £47bn yn y flwyddyn hyd at Ionawr 2017. Mae mwyafrif sianeli'r farchnad yn tyfu'n gryf, yn cynnwys prif sianeli Bwyta Gwasanaeth Cyflym (£10.3bn), Becws a Brechdanau (£4.7bn) a Siopau Coffi (£5.9bn). Y sianeli sydd ddim yn perfformio gystal, gyda gwerthiant blynyddol yn gostwng yw bwyta gwasanaeth llawn, adwerthwyr lluosog ac arlwywyr gweithle.

Sianeli Bwyta o'r Cartref



Mae 60% o wariant o'r cartref yn y farchnad prydau ffurfiol neu brydau cyflym, 18% ar ddiodydd poeth, 11% ar fyrbrydau a 11% ar ddiodydd oer. Yng Nghymru, mae prydau'n cyfrif am gyfran uwch (63%), gyda gwariant llai ar fyrbrydau a diodydd. Y 'Baby Boomers' (dros 55 oed) sy'n gwario fwyaf, gyda'r cyfartaledd blynyddol yn uwch yng Nghymru na Phrydain (£1,290 o'i gymharu â £1,186). Mae

65% o'u gwariant ar brydau, tra bo Cenhedlaeth y Mileniwm (dan 35) yn gwario hanner hynny (£611 y flwyddyn yng Nghymru), gyda 40% ar ddiodydd a byrbrydau.

Tra bo'r sianeli'n parhau'n weddol draddodiadol o ran proffil y gwariant (h.y. prydau ffurfiol yn dominyddu mewn bwyta, bwyta gwasanaeth cyflym, gwestai), mae tystiolaeth fod sianeli'n cystadlu y tu allan i'w sectorau ffurfiol, ac yn fwyfwy yng Nghymru na chyfartaledd Prydain. Mae 41% o ymweliadau becws yn cynnwys diod poeth, a 19% o ymweliadau siop goffi yn cynnwys pryd cyflym yng Nghymru.

Mae'r farchnad o'r cartref yn hynod gryf, ac mae'r lleoliad yn gyrru'r dewis, gyda 56% yn ymweld am ei fod ar y ffordd i rywle arall (27%), agos at gartref (10%) neu'n agos at y gwaith (19%). I gael cyfran o'r farchnad, mae adwerthwyr yn agor siopau newydd, cynyddu dewis (yn enwedig brechwast a bore), a chynig cynnyrch premiwm ac ehangu'r dewis o gategoriâu.

Mae coffi'n cael ei ddefnyddio i yrru achlysuron newydd a chynyddu gwariant. Gyda 72% o wariant ar ddiodydd poeth ar goffi, mae'n brif gategori, gwerth £6.2bn ac yn dangos twf blynyddol o 9%. Mae bron i 40% o achlysuron coffi yn cynnwys prynu rhywbeth arall, sy'n ychwanegiad sylweddol at wariant ymweliad - e.e. mae 11% o bryniannau coffi yn cynnwys brechdan, gan gynyddu gwariant o gyfartaledd o £2.04 i £7.14 wrth i ddefnyddwyr brynu mwy o gynnyrch. Mae siopau coffi premiwm hefyd yn dechrau gwerthu cwrw crefft a gwin.

Mae twf mewn achlysuron pecyn bwyd oedolion yn galluogi defnyddwyr i newid i brynu cynnyrch moethus, yn enwedig yn y bore. Mae manteisio ar newid mewn

Cip ar Fwyta o'r Cartref



achlysuron (bore, cinio, prynhawn a min nos) yn galluogi adwerthwyr i yrru twf yn y farchnad bwyta o'r cartref ddeinamig.